

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	18 Tachwedd 2015
<b>TEITL</b>	Materion Cynllunio
<b>PWRPAS</b>	Gwybyddu Aelodau
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr Wybodaeth

## 1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hon wedi ei chynnwys ar raglen y Cydbwyllgor Ymgynghorol er darparu gwybodaeth am faterion cynllunio perthnasol i ardal Llŷn a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- 1.2 Yn unol â chytundeb gwasanaeth mae'r Uned AHNE yn darparu sylwadau ar geisiadau cynllunio sydd yn yr AHNE neu gerllaw i'r ardal yn achos datblygiadau allai gael effaith ar yr AHNE. Gwneir sylwadau ar oddeutu 100 o geisiadau yn flynyddol.
- 1.3 Mae'r adroddiad hon yn rhoi sylw i'r rai apeliadau cynllunio diweddar a'r posibilrwydd o sefydlu Is-Bwyllgor Cynllunio.

## 2.0 APELIADAU CYNLLUNIO

- 2.1 **Tyrbin gwynt 34m i flaen y llafn. Crugeran, Sarn Mellteyrn.** Gwrthodwyd yr apêl ac nodwyd mai'r prif fater oedd:
- “effaith y datblygiad ar edrychiad a chymeriad yr ardal, gydag ystyriaeth arbennig i'w effaith ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn yn cynnwys ei effaith ar amwynder gweledol.”
- 2.2 **Tyrbin gwynt 48.6m i flaen y llafn. Tir Dafydd, Sarn Mellteyrn.** Gwrthodwyd yr apêl a'r prif resymau oedd:
- “effaith y cynnig ar Ardal Gwarchod y Tirlun a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol a golygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).
  - effaith weledol y cynnig ar breswylwyr gerllaw.”
- 2.3 **Dymchwel siale presennol a chodi tŷ annedd. Ger Glyndwr, Abersoch.** Gwrthodwyd yr apel, y prif reswm oedd:
- “effaith y datblygiad ar gymeriad a golwg yr ardal, gan ystyried yn benodol ei leoliad o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).”

2.4 **Tyrbin gwynt 67 m i flaen y llafn, Moelfre Llanaelhaearn.** Disgwyl penderfyniad.

2.5 **6 Maes Awel, Abersoch. Addasiadau i dŷ annedd.** Disgwyl Penderfyniad.

### **3.0 PANELI SOLAR**

3.1 Mae nifer o geisiadau cynllunio am baneli solar ar adeiladau wedi eu caniatáu hyd yma yn yr AHNE. Gan fod yr adeiladau yn bodoli yn barod yn gyffredinol prin yw effaith gweledol y datblygiadau hyn.

3.2 Yn ddiweddar fodd bynnag mae cynnydd mewn diddordeb, a nifer y ceisiadau, am baneli solar ar y ddaear a ffermydd solar. Rhoddir diweddariad ar y mater yma yn y cyfarfod.

### **4.0 SEFYDLU IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO**

4.1 Roedd adroddiad wedi ei chyflwyno ar y mater yma i'r cyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor (gweler cofnodion ynghlwm). Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at faterion perthnasol yn ogystal â rhai manteision ac anfanteision sefydlu Is-bwyllgor cynllunio.

4.2 Ni ddaethpwyd i gasgliad pendant ar y mater yn y cyfarfod blaenorol a'r penderfyniad oedd i osod y mater ar raglen y cyfarfod hwn. O ran yr Uned AHNE nid oes newid yn y sefyllfa ac awgrymir parhau â'r drefn bresennol o ran materion cynllunio.

### **5.0 ARGYMHELLIAD**

5.1 Derbyn yr wybodaeth